Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ein Cyf: JP/LL/SB

29 Gorffennaf 2022

Annwyl Adrian

Adroddiad Archwilio Cymru - Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yn gofyn am ragor wybodaeth ynglŷn â'n hymateb cychwynnol i argymhellion eich Archwiliad a anfonwyd ym mis Mehefin. Fel y gwyddoch, mae Andrew Sallows wedi cael ei benodi'n Gyfarwyddwr Adfer Gofal wedi'i Gynllunio. Bydd yn cefnogi ac yn herio byrddau iechyd mewn perthynas â chyflawni ein huchelgeisiau a'n disgwyliadau o fewn y cynllun adfer cenedlaethol. Rwyf wedi gofyn am ragor o wybodaeth ganddo er mwyn rhoi sylw i rai o'r materion sydd wedi eu codi gennych.

Byddaf yn ymateb i bob un o'r meysydd lle y nodir bod angen eglurder.

Yr angen am ragor o sicrwydd – Argymhelliad 1: Rydym yn nodi'r targedau sydd yng nghynllun Llywodraeth Cymru a'r gwaith y bydd Andrew Sallows yn ei wneud gyda'r byrddau iechyd i ddatblygu asesiadau llinell sylfaen a thargedau a cherrig milltir cyflawni. Fodd bynnag, roedd prif nod yr argymhelliad hwn yn ymwneud â phennu uchelgeisiau clir ar gyfer cyflwyno'r dulliau newydd o weithio a nodir yn y cynllun, ac mae ymateb Llywodraeth Cymru yn dawel ar y mater hwnnw. Gan dderbyn y bydd angen gwneud rhywfaint o waith gyda byrddau iechyd unigol wrth iddynt baratoi eu cynlluniau gweithredu, byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch yr uchelgeisiau a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r dulliau newydd o weithio a fydd yn cefnogi'r gwaith o drawsnewid y gwasanaeth gofal wedi'i gynllunio y bwriedir ei gyflawni.
Ymateb: • Mae'r Cyfarwyddwr Adfer Gofal wedi'i Gynllunio a'i dîm yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ymgysylltu â'r byrddau iechyd i ganolbwyntio ar adfer drwy edrych ar eu

cerrig milltir ar gyfer cyflawni yn erbyn pob un o'r targedau a'r camau gweithredu, sy'n gysylltiedig â gofal wedi'i gynllunio, yn y cynllun adfer. Maent hefyd wrthi'n cytuno ar y dull gweithredu lleol a ddefnyddir i fodloni'r angen am ofal wedi'i gynllunio, ac mae hyn er enghraifft yn cynnwys cwestiynu ai dim ond mynd ati i wneud neu brynu mwy o weithgarwch y mae'r byrddau iechyd, ynteu a ydynt yn trawsnewid gwasanaethau mewn gwirionedd er mwyn sicrhau bod modelau cynaliadwy ar waith ar gyfer y dyfodol.

- Oherwydd maint yr ôl-groniadau ar y rhestr aros ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd angen cyfuno'r ddau ateb ar draws llawer o arbenigeddau am gyfnod hir.

- Mae'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio wedi datblygu cyfleoedd ar gyfer trawsnewid gwasanaethau, ac mae llawer o'r cyfleoedd hyn bellach yn dechrau cael eu gweithredu. Bydd y rhaglen adfer yn cyflymu'r rhain ochr yn ochr â datblygu cyfleoedd trawsnewid pellach er mwyn sicrhau newid a gosod targedau penodol i'r byrddau iechyd yn seiliedig ar eu sefyllfa bresennol. Bydd y rhain yn cael eu cysylltu â chyfres o uchelgeisiau trawsnewid cenedlaethol sy'n cael eu datblygu gennym ar hyn o bryd.

- Un enghraifft o hyn fyddai pan fo cleifion yn cael eu galw'n ôl am apwyntiadau dilynol rheolaidd ar gyfer adolygiad clinigol – gall y rhain fod yn ddiangen gan wastraffu amser y claf a'r tîm clinigol. Mae Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf a Sylw yn ôl Symptomau yn caniatáu i gleifion berchen ar eu gofynion triniaeth eu hunain a chael y sicrwydd y gallant gael eu gweld pan fo angen. Os bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei gweithredu ar raddfa fawr, gall y capasiti / sesiynau ychwanegol gael eu defnyddio at ddibenion eraill megis gweld rhagor o gleifion newydd neu gynnal sesiwn theatr ychwanegol – gofynnwyd i'r byrddau iechyd weithredu hyn fel blaenoriaeth er mwyn creu'r capasiti ychwanegol, trawsnewid eu gwasanaethau, ac yn fwyaf pwysig gwella'r gofal a roddir i gleifion. Rydym wedi cytuno gyda'r Grŵp Llywio Cleifion Allanol y bydd o leiaf 20% o bresenoldebau yn ganlyniad Sylw yn ôl Symptomau neu Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf eleni, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun adfer.

Yr angen am ragor o sicrwydd – Argymhelliad 2:
Mae'r cyllid ychwanegol sydd wedi ei neilltuo i helpu i adfer gofal wedi'i gynllunio wedi cael ei nodi a'i groesawu. Roedd ein hargymhelliad yn annog defnyddio dull gweithredu strategol i gyllido'r adferiad o ofal wedi'i gynllunio sy'n cefnogi'r gwaith y mae angen ei gyflawni i drawsnewid gwasanaethau, gan sicrhau bod y manteision gorau yn deillio o'r buddsoddiad ychwanegol sylweddol a nodwyd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyllid cyfalaf. Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddai buddsoddiad ychwanegol yn cael ei ddefnyddio, ac yn benodol a oes ganddi unrhyw gynlluniau ar gyfer dull gweithredu tymor hirach mewn perthynas â chyllid cyfalaf i gefnogi'r gwaith o adfer a thrawsnewid gwasanaethau.

Ymateb:

- Mae'r buddsoddiadau sylweddol rheolaidd, gan gynnwys buddsoddiadau mewn rhaglenni, sydd wedi cael eu gwneud eleni wedi cael eu dyrannu'n seiliedig ar ddisgwyliadau clir – sef yr angen i gyflwyno ac ymwreiddio modelau gwasanaeth sydd wedi eu trawsnewid, a datblygu atebion rhanbarthol lle bo angen hynny wrth ddarparu gwasanaethau, yn hytrach na dim ond lleihau ôl-groniadau ac amseroedd

aros.

- Os nad yw byrddau iechyd yn cyflawni mewn modd digon cyflym, bydd cyfarwyddiadau canolog yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel y bo angen.

- Mae sefydliadau'r GIG wedi darparu rhestrau o gynlluniau cyfalaf o flaenoriaeth ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd. O fewn y rhestrau hyn, mae nifer sylweddol o gynlluniau y mae adfer a thrawsnewid yn ganolog iddynt – gan gynnwys datblygiadau megis y Canolfannau Triniaeth Rhanbarthol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- O fewn Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan y GIG yn 2022-23, mae'r buddsoddiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Gweinidog yn cynnwys capasiti theatr endosgopi ychwanegol yn ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Athrofaol Llandochau yn ogystal â buddsoddi mwy na £36m mewn delweddu diagnostig (MRI / CT / uwchsain) ledled Cymru.

Yr angen am ragor o sicrwydd – Argymhelliad 4:
Mae'n ymddangos nad yw ymateb Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw i brif nod yr argymhelliad hwn a oedd yn annog dull gweithredu sy'n darparu arweinyddiaeth glir i'r system ar draws y cynllun cyfan, yn hytrach nag i wasanaethau diagnostig yn unig. Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld sut y byddai'r arweinyddiaeth ar gyfer system ehangach yn gweithio'n ymarferol wrth adfer gofal wedi'i gynllunio. Mae'n galonogol nodi bod gwersi wedi eu dysgu o drefniadau blaenorol bwrdd y rhaglen, ond byddai'n dda gwybod beth oedd y gwersi hynny a sut y maent yn dylanwadu ar y trefniadau arweinyddiaeth newydd ar gyfer y system wrth inni gamu ymlaen i'r dyfodol.

Ymateb:

- Mae'r nod o adfer gofal wedi'i gynllunio yn parhau'n un o'r prif amcanion o flaenoriaeth i bawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal iechyd ar draws GIG Cymru; mae angen arweinwyr ar bob lefel er mwyn sicrhau bod yr adferiad yn llwyddo a bod y newidiadau angenrheidiol i drawsnewid gwasanaethau yn digwydd mewn gwirionedd.

- Ar ran Llywodraeth Cymru, bydd y gwaith adfer a chyfrifoldeb dros y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio o dan arweinyddiaeth y Cyfarwyddwr Adfer Gofal wedi'i Gynllunio – bydd hyn yn helpu i ddarparu trefniadau rheoli ac arweinyddiaeth glinigol drwy un tîm. Bydd y dull hwn yn helpu i weithredu llwybrau trawsnewid, sydd wedi eu cytuno'n glinigol, mewn modd mwy adeiladol ac effeithiol fel rhan o'r ymateb ar gyfer adfer.

- Un o'r blaenoriaethau fydd adolygu telerau a chyfeiriadau'r byrddau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofynion, a'r hyn y gellid ei gyflawni drwy'r cynllun adfer, a bydd hynny'n adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen hyd yn hyn.

- Wrth inni symud ymlaen i'r dyfodol, bydd yr arweinyddiaeth glinigol hefyd yn rhan o'r fframwaith clinigol cenedlaethol lle bydd llwybrau cenedlaethol ar gyfer gweithredu'n lleol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno gan ddefnyddio dull gweithredu'n seiliedig ar werth.

- Mae'r hyn a ddysgwyd wedi dangos bod yn rhaid i gamau trawsnewid clinigol a gytunir yn genedlaethol fod yn weithredol mewn cynlluniau cyflawni lleol a bod yn

rhan o’r atebolrwydd ar gyfer cyrraedd pen y daith adfer. Mae hyn yn rhan o’r broses y mae’r tîm adfer cenedlaethol yn mynd drwyddi gyda phob bwrdd iechyd.

Yn gywir



Judith Paget CBE

Copïau at: Flwch post y Cabinet
Mark Isherwood AS, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Blwch post yr Uned Llywodraethu Corfforaethol